OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2002 Rhif 2935 (Cy.277)

PLANT A PHERSONAU IFANC, CYMRU
GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

Rheoliadau Deddf Plant 1989 a Deddf Safonau Gofal 2000 (Rheoliadau Amrywiol) (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2002

Wedi'u gwneud - -	*27 Tachwedd 2002*
Yn dod i rym - -	*31 Rhagfyr 2002*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 23(2)(a) ac (f), (5) a (9), 23A(3), 25(2) a (7), 26(1), (2), (5) a (6), 51(4), 59(2) i (5) a 104(4) o Ddeddf Plant 1989(**1**) a pharagraffau 13 a 14 o Atodlen 2, paragraff 4(1)(a) o Atodlen 4, paragraff 7(1)(a) o Atodlen 5, a pharagraff 10(1)(a) a (2)(1) o Atodlen 6 iddi, ac adrannau 3(3), 12(2)(a), 16(1)(a) a (3), 22(1) a 118(6) o'r Ddeddf Safonau Gofal(**2**) ac yntau o'r farn nad yw'r Rheoliadau hyn yn rhoi effaith i unrhyw newid sylweddol yn y ddarpariaeth a wnaed gan reoliadau eraill a wnaed o dan adran 22 o Ddeddf 2000(**3**) drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf Plant 1989 a Deddf Safonau Gofal 2000 (Rheoliadau Amrywiol) (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2002, a deuant i rym ar 31 Rhagfyr 2002.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas â Chymru.

(3) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "cartref" ("*home*") yw—

(a) cartref cymunedol o fewn ystyr adran 53 o Ddeddf 1989;

(**1**) 1989 p.41. Mae'r pwerau wedi eu rhoi i'r Ysgrifennydd Gwladol. Maent yn arferadwy gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â Chymru drwy rinwedd adran 22(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 (p.38), ac erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) a'r cofnod mewn perthynas â Deddf Plant 1989 yn atodlen 1 iddi ac, mewn perthynas â'r pŵer o dan adran 23A o Ddeddf 1989, gan adran 8(7) o Ddeddf Plant (Ymadael â Gofal) 2000 (p.35). *Gweler* adran 105(1) o Ddeddf 1989 am y diffiniad o "prescribed".

(**2**) 2000 p.14. Mae'r pwerau wedi'u rhoi i'r "appropriate Minister". Ystyr "appropriate Minister" yw'r Cynulliad mewn perthynas â Chymru: a.121(1) o Ddeddf 2000. Ystyr "Cynulliad" yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru: adran 5(b) o Ddeddf 2000. Mewn perthynas â Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon ystyr "appropriate Minister" yw'r Ysgrifennydd Gwladol: adran 121(1) o Ddeddf 2000. *Gweler* adran 121(1) o Ddeddf 2000 ar gyfer y diffiniadau o "regulations" a "prescribed".

(**3**) O dan adran 22(9) o Ddeddf 2000 bydd y Gweinidog priodol yn ymgynghori ag unrhyw berson y mae'n ei ystyried yn briodol cyn gwneud unrhyw reoliadau o dan adran 22, oni bai fod y rheoliadau yn diwygio rheoliadau eraill a wnaed o dan yr adran honno ac nad yw'r rheoliadau yn ei farn ef yn rhoi effaith i unrhyw newidiadau o bwys yn y ddarpariaeth a wnaed gan y rheoliadau hynny. Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio rheoliadau eraill a wnaed o dan adran 22: *gweler* rheoliad 2.

(b) cartref a gofrestrwyd o dan Ran VIII o Ddeddf 1989(**4**);

(c) cartref a gofrestrwyd mewn cofrestr a gadwyd at ddibenion adran 60 o Ddeddf 1989(**5**);

(ch) cartref y cyfeirir ato yn erthygl 3(9) o Orchymyn Cychwyn Rhif 8(**6**);

(d) cartref gofal preswyl o fewn ystyr adran 1(1) o Ddeddf 1984, cartref nyrsio o fewn ystyr adran 21 o Ddeddf 1984, a chartref nyrsio meddwl o fewn ystyr adran 22 o Ddeddf 1984(**7**));

ystyr "Deddf 1984" ("*1984 Act*") yw Deddf Cartrefi Cofrestredig 1984(**8**);

ystyr "Deddf 1989" ("*1989 Act*") yw Deddf Plant 1989;

ystyr "Deddf 2000" ("*2000 Act*") yw Deddf Safonau Gofal 2000;

ystyr "Gorchymyn Cychwyn Rhif 8" ("*the No. 8 Commencement Order*") yw Gorchymyn Deddf Safonau Gofal 2000 (Cychwyn Rhif 8 (Cymru) a Darpariaethau Trosiannol, Arbedion a Chanlyniadol) 2002(**9**).

Diwygio Rheoliadau Cartrefi Gofal (Cymru) 2002

2.—(1) Yn rheoliad 2(1) o Reoliadau Cartrefi Gofal (Cymru) 2002(**10**) caiff y diffiniad o "perthynas" ei ddiywgio yn unol â pharagraff (2) o'r rheoliad hwn.

(2) Yn lle'r geiriau "(ch) unrhyw unigolyn y cafodd y person ei letya ag ef o dan drefniadau maethu am gyfnod hwy na 28 diwrnod tra'r oedd rhwng un ar bymtheg a deunaw mlwydd oed, neu briod yr unigolyn hwnnw" rhoddir "(ch) unrhyw unigolyn a gafodd ei letya am gyfnod hwy na 28 diwrnod rhwng un ar bymtheg a deunaw mlwydd oed o dan drefniadau maethu a wnaed gyda'r person hwnnw, neu briod yr unigolyn hwnnw".

Diwygio Rheoliadau Cofrestru Gofal Cymdeithasol a Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2002

3. Ym mharagraff 3 o Atodlen 1 i Reoliadau Cofrestru Gofal Cymdeithasol a Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2002(**11**) ar ddechrau is-baragraff (a) mewnosodir y geiriau "heblaw pan fo'r ceisydd yn awdurdod lleol neu Ymddiriedolaeth GIG,".

Diwygio Rheoliadau Cofrestru Gofal Cymdeithasol a Gofal Iechyd Annibynnol (Ffioedd) (Cymru) 2002

4. Yn rheoliad 7(5)(c) o Reoliadau Cofrestru Gofal Cymdeithasol a Gofal Iechyd Annibynnol (Ffioedd) (Cymru) 2002(**12**) yn lle'r gair "home" rhoddir "independent hospital or clinic".

(**4**) Diddymwyd darpariaethau Rhan VIII o Ddeddf 1989 ynghylch cofrestru rhai cartrefi plant gan adran 117(2) o Ddeddf 2000, ac Atodlen 6 iddi, yn ddarostyngedig i'r darpariaethau trosiannol yn erthygl 3 o Orchymyn Cychwyn Rhif 8.

(**5**) Diddymwyd darpariaethau adran 60 o Ddeddf 1989 sy'n ymwneud â chofrestru cartrefi plant gwirfoddol gan adran 117(2) o Ddeddf 2000, ac Atodlen 6 iddi, yn ddarostyngedig i'r darpariaethau trosiannol yn erthygl 3 o Orchymyn Cychwyn Rhif 8.

(**6**) Mae erthygl 3(9) yn gymwys i rai cartrefi plant nad oeddent ar 1 Ebrill 2002 wedi'u cofrestru o dan Ran VIII o Ddeddf 1989, ond mewn perthynas â hwy, trwy rinwedd erthgyl 3(1) o Orchymyn Deddf Safonau Gofal 2000 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2001 (O.S. 2001/139), yr oedd y person a oedd yn gweithredu'r cartref wedi'i ddiogleu rhag cyflawni'r drosedd o dan adran 63(10) o Ddeddf 1989 o weithredu cartref plant anghofrestredig. Deddfodd O.S. 2001/139 ddarpariaethau trosiannol mewn perthynas â chychwyn adran 40 o Ddeddf 2000, a oedd yn diwygio adran 63 o Ddeddf 1989 er mwyn gwaredu'r esemptiad o'r gofyniad i gofrestru o dan yr adran honno mewn perthynas â chartrefi plant sy'n lletya tri phlentyn neu lai.

(**7**) Diddymwyd Deddf 1984 gan adran 117(2) o Ddeddf 2000, ac Atodlen 6 iddi, yn ddarostyngedig i'r darpariaethau trosiannol yn erthygl 3 o Orchymyn Cychwyn Rhif 8.

(**8**) 1984 p.24.

(**9**) O.S. 2002/920.

(**10**) O.S. 2002/324.

(**11**) O.S. 2002/919.

(**12**) O.S. 2002/921.

Diwygio Rheoliadau Trefniadau ar gyfer Lleoli Plant (Cyffredinol) 1991

5.—(1) Caiff Rheoliadau Trefniadau ar gyfer Lleoli Plant (Cyffredinol) 1991(**13**)) eu diwygio yn unol â darpariaethau canlynol y rheoliad hwn.

(2) Yn rheoliad 1(2), 2(1), 5(1), 6, 10(2) a (3) ac 11, ac ym mharagraff 5 o Atodlen 4, yn lle'r geiriau "registered children's home" rhoddir y geiriau "private children's home" bob tro y digwydd.

(3) Yn rheoliad 1(2) (dehongli), yn y diffiniad o "placement", yn lle "(b), (c), (d)" rhoddir "(aa)" ym mharagraff (a) a (b)(**14**).

(4) Yn rheoliad 2(2) (cymhwyso'r rheoliadau) ar ôl y geiriau "voluntary organisation", rhoddir ", in a school which is a children's home within the meaning of section 1(6) of the Care Standards Act 2000.".

(5) Yn rheoliad 11 (mynediad gan warcheidwaid ad litem i gofnodion a'r gofrestr), ac yn y pennawd i'r rheoliad hwnnw, yn lle "guardian ad litem" rhoddir "officer of the service"(**15**).

(6) Yn Atodlen 3 (ystyriaethau addysgol y mae awdurdodau cyfrifol i'w ystyried), ym mharagraff 4—

(a) yn lle "Education Act 1981" rhoddir "Education Act 1996"(**16**); a

(b) yn lle "section 7" rhoddir "section 324".

Diwygio Rheoliadau Lleoli Plant â Rhieni a.y.y.b. 1991

6.—(1) Caiff Rheoliadau Lleoli Plant â Rhieni a.y.y.b 1991(**17**) eu diwygio yn unol â darpariaethau canlynol y rheoliad hwn.

(2) Yn rheoliad 1(2) (dehongli), hepgorir y diffiniad o "guardian ad litem".

(3) Ym mharagraff 1 o Atodlen 1 (manylion i'w cymryd i ystyriaeth)—

(a) yn is-baragraff (f), yn lle'r geiriau o "under" hyd at "Act" rhoddir "for child minding or day care"; a

(b) yn lle is-baragraff (k) rhoddir—

"(k) details of any criminal offences of which he has been convicted, or in respect of which, at the time the caution was given, he admitted.".

Diwygio Rheoliadau Adolygu Achosion Gofal Plant 1991

7.—(1) Caiff Rheoliadau Adolygu Achosion Gofal Plant 1991(**18**)) eu diwygio yn unol â darpariaethau canlynol y rheoliad hwn.

(2) Yn rheoliad 1(2) (dehongli), hepgorir y diffiniad o "guardian ad litem".

(3) Yn rheoliad 1(2) a 12, yn lle'r geiriau "registered children's homes" rhoddir "private children's homes" bob tro y diwgydd.

(4) Yn rheoliad 13 (eithriadau i gymhwyso'r Rheoliadau), yn lle'r geiriau "on behalf of" hyd at ddiwedd y rheoliadau, rhoddir "by a local authority or a voluntary organisation in a school which is a children's home within the meaning of section 1(6) of the Care Standards Act 2000.".

(**13**) O.S. 1991/890, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1991/2033, O.S. 1993/3069, O.S. 1995/2015 ac O.S. 1997/649.
(**14**) Mae'r darpariaethau a amnewidiwyd yn gyfeiriadau at ddarpariaethau Deddf Plant 1989 a amnewidiwyd eu hunain gan adran 116 o Ddeddf Safonau Gofal 2000, a pharagraff 14(1), (3) ac(8) o Atodlen 4 iddi.
(**15**) Mae Adran 105(1) o Ddeddf Plant 1989 yn darparu bod i "officer of the service" yr un ystyr ag sydd yn Neddf Cyfiawnder Troseddol a Gwasanaethau Llys 2000 (p. 43). *Gweler* adran 11(3) o'r Ddeddf honNo.
(**16**) 1996 p.56.
(**17**) O.S. 1991/893, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1995/2015.
(**18**) O.S. 1991/895, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1991/2033, O.S. 1993/3069, O.S. 1995/2015, ac O.S. 1997/649.